

ENWAU CYMRU

CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU / WELSH PLACE-NAME SOCIETY

Bwletin 14 * Hydref 2018

Bulletin 14 * Autumn 2018



Y DYN A RODDODD GYMRU AR Y MAP
HUMPHREY LLWYD
1527–1568

Ar gyfer eich dyddiadur / Dates for your diary

Dydd Sadwrn 29 Medi / September

Agoriad arddangosfa newydd 'Tra Môr yn Fur: Cymru a'r Môr', Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, yn archwilio hanes perthynas Cymru â'r môr.

The opening of 'Tra Môr yn Fur: Wales and the Sea', a new exhibition in the National Library of Wales, Aberystwyth, with a focus on the history of Wales's relationship with the sea.

Dydd Sadwrn 29 Medi / September

Cymdeithas Hynafiaethau Cymru / Cambrian Archeological Association

The Plough, Rhos-maen, Llandeilo, 10.30

David Thorne: The Mediciners of Cantref Mawr and Cantref Bychan: Place-name Evidence

6 Hydref / October

Cynhadledd Flynyddol CELIC / WPNS Annual Conference, Prifysgol Bangor University

27 Hydref / October

Institute for Name-Studies: Names and Identity Conference, Glasgow University

(with papers by Dr John Baker 'Names and identities on the Anglo-Welsh border' and Dr Kelly Kilpatrick 'Place, water and identity in medieval Wales')

3 Rhagfyr / December

Cymdeithas Lenyddol Bro Menai, Hen Ysgol David Hughes, Biwmares

Rhian Parry: Hel Enwau

5 Hydref / October 2019

Cynhadledd Flynyddol CELIC Caerdydd / WPNS Annual Conference Cardiff

Cofnodion

Mae cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor ar gael i aelodau ar ffurf electronig drwy gysylltu ag angharad.fychan@googlemail.com

Minutes

Minutes of the Committee Meetings are available electronically for members by contacting angharad.fychan@googlemail.com

Golygyddol

Ym mhob pen mae piniwn. Beth yw'r piniwn yn eich pen CHI? Dywedwch wrthym yn bwletinCELIC@gmail.com

Editorial

What is your take on place-names? Let us know at bwletinCELIC@gmail.com

Nid yw unrhyw farn a fynegir yn y Cylchlythyr o anghenraid yn fynegiad o farn y Gymdeithas na'r Golygydd.

Opinions expressed in this Newsletter are not necessarily those of the Society or of the Editor.

Cyfraniadau ar gyfer rhifyn y Gwanwyn i law'r Golygydd (bwletinCELIC@gmail.com), os gwelwch yn dda, erbyn 1 Mawrth 2019.

Please send contributions for the Spring issue to the Editor (bwletinCELIC@gmail.com) by 1 March 2019.

Golygydd a chysodydd / Editor and typesetter: Ann Parry Owen

Rhai o enwau strydoedd tref Caernarfon (rhan 1)

Mae Caernarfon yn enwog am ei hiaith liwgar a thafodiaith y Cofi, tref lle mae'r iaith Gymraeg wedi goroesi er gwaethaf y dylanwadau cryf Seisnig a milwrol arni ers dyddiau Edward I. Flynyddoedd yn ôl, enw Saesneg yn unig oedd gan bob stryd yn swyddogol, ac eithrio'r Maes, Y Cei, a Stryd Llyn ar lafar. Dim tan y codwyd stadau tai cyngor mawr Ysgubor Goch yn nechrau'r ugeinfed ganrif y cawsom enwau Cymraeg ar strydoedd ac yna ar bob stad ers hynny, nifer yn deillio o'r hen ffermydd y codwyd y tai arnynt, fel Coed Marion, Ysgubor Goch, Cae Mur, Maes Barcer, Yr Hendre ac ati. Ond mae'r enwau Seisnig ar strydoedd y dref yn enwau difyr a hanesyddol. Dyma rai ohonynt, gyda'u henwau Cymraeg. Dim ond arolwg bras o rai o strydoedd y dref a geir yma.

Bowling Green Lane / Cefn Menai

Y tu ôl i dafarn yr Alex, sydd ar y cylchdro fel y dewch i mewn i'r dref o gyfeiriad Bangor, y gwelwch yr enwau hyn. Gwyddwn mai Tai Menai neu Menai Terrace oedd yr enw ar y tai ger yr Alex, ond beth am Bowling Green Lane?

Ym mhen draw'r llwybr hwn, mae dau fwthyn o'r enw Bowling Green Cottages, ac ar fap y degwm cawn 'Cae Bowling Green' lle mae'r Alex a'r cylchdro heddiw.

Yn Archifdy Caernarfon, ceir cofnod o 1792 yn nodi bod les o swllt y flwyddyn am 99 mlynedd wedi ei chodi ar y tir hwn, i'w ddefnyddio fel lawnt fowlio. Yn 1826 (X/POOLE/2117) diddymwyd y les a chynigiwyd les ar ddarn o dir arall ryw 100 llath i'r de i godi lawnt fowlio newydd, ger safle'r hen bafiliwn. Bu'r lawnt fowlio yma nes adeiladu'r ffordd fewnol a rwygodd y dref yn ddau yn y 1970au.

Ni fu datblygiadau yma am rai blynyddoedd wedyn, gan mai caeau sydd yma ar fap y degwm. Adeiladwyd Tai Menai tua 1876. Dyma enghraifft o roi enw Cymraeg heb ymchwilio i'r enw gwreiddiol.

Vinegar Hill

Byddai milwyr a oedd yn cael eu gyrru i lwerddon yn aros yn y dref cyn eu mordaith i'r Ynys Werdd. Un enw sy'n ein hatgoffa ni o hyn yw Vinegar Hill, stryd fechan a arweiniai heibio i dalcen gwesty'r Prince of Wales, sydd wedi ei ddymchwel erbyn hyn. Mae ei lleoliad heddiw yng nghanol maes parcio Home Bargains. Roedd yn ffordd a âi â chi dros y bont reilffordd heibio i dai'r Priordy ac i ffordd Balaclava. Ar fap y degwm, ceir cae gerllaw o'r enw Cae'r Bragdy, sydd, ym marn rhai, yn esbonio tarddiad Vinegar Hill.

Llygriad ar enw lle ger Inis Córthaidh yn ne-ddwyrain lwerddon yw Vinegar Hill, lle laddwyd dros 1200 o Wyddelod gan Brydain yn 1798. Yr enw cywir arno yw Cnoc Fhiodh na gCaor, a Fiodh na gCaor yn cael ei ynganu 'ffi-na-gêr' ar lafar: hawdd gweld o ble daw'r finegr! Ystyr yr enw Gwyddeleg yw 'bryn coed aeron', enw bach hyfryd sydd wedi ei lygru, fel sy'n arferol, yn rhywbeth hollol ddiystyr.

Prickey Sithy

Ar fap John Speed y gwelwn yr enw bach difyr hwn sydd wedi hen ddiplannu. South neu De Penrallt yw'r enw erbyn heddiw. Roedd yn un o'r strydoedd a oedd yn arwain i Twtil cyn y ffordd osgoi fewnol.

Y stori y tu ôl i'r enw yw y byddai saethwyr yn mynd y ffordd hon i ymarfer gyda'u bwa saeth, gan fod angen iddynt fod yn fedrus â'r bwa hir i allu amddiffyn y dref. Mae tystiolaeth o hyn yn Rhestr Fwstro 1531 lle nodir bod bechgyn dros 16 mlwydd oed yn cael eu gorfodi i 'wasanaethu'r brenin'. Roedd yn rhaid iddynt fod ar lw i droi allan ar awr o rybudd i gael eu harchwilio, i ymarfer neu i fartsio, beth bynnag oedd y gorchymyn (K.F. Banholzer, *Old Caernarvon - Outside the Town Walls*, t.35).

Cadnant Place / Gipsy Hill

Ar fap 25^o yr Arolwg Ordnans 1892–1914 gwelwn stryd o'r enw Cadnant Place, enw na chlywais erioed mohono ar lafar. Enw'r allt serth hon gan bawb oedd Gipsy Hill. Roedd yn arwain i fyny'r dyffryn i Twtil ond diflannodd gyda dyfodiad y ffordd osgoi fewnol.

Ond pam Gipsy Hill? Gan Tony Lovell ges i'r unig esboniad posib i'r enw; meddai Tony, 'nath y sipsiwns symud i fyw mewn tai yn Mountain Street, lle ofnadwy o rough ers talwm'. Fe welwn enw un stryd o'r enw 'Poor Houses' ar fap John Wood 1834 yn yr ardal yma. A oes yna gynnig arall?

Ar drywydd arall, ond cysylltiedig, y tu allan i'r dref yn y Bontnewydd, cawn safle Coed y Sipsi. Credaf fod y lleoliad hwn wedi ei enwi ar ôl Uriah Lovell, gŵr bonheddig a fu farw yn niwedd y 1950au ac a arferai fyw yn null traddodiadol y sipsi mewn pabell yn y coed ger y safle hwn.

[This is the first in a series of articles about the fascinating street names of Caernarfon town. In the past, the majority of the street names were English, but in recent years many have also been given Welsh names, often losing the information provided by the original English name. For example Bowling Green Lane recalls the location of a bowling green in the 18th century, whilst the Welsh form Cefn Menai is not so informative. Vinegar Hill is another interesting form, recalling the battle of Cnoc Fhiodh na gCaor in Ireland in 1798 – the name recalls the fact that British soldiers would have stayed in Caernarfon before crossing the Irish Sea. Fiodh na gCaor would have been pronounced something like 'fee-na-gare', which explains the vinegar!]

Ifor Dylan Williams

Sarn Elen (part 3)

Setting aside the tale of Elen Luyddog, what early evidence survives in place-names? Two mentions have been found in the period before Lloyd's letters 1693 and Lhuyd's additions to Gibson's *Britannia* 1695. The first instance appears in Camden's original *Britannia* published in Latin in 1586. Camden refers to a stretch of road on the eastern side of Ffestiniog describing it as 'a high road or military way of pitch'd stones ... call'd in British Sarn Helen, or Helen's way'. He was of the opinion that 'it is but reasonable that we suppose it made by Helena the mother of Constantine the Great; whose works were many and magnificent throughout the Roman Empire'. *Britannia* is most easily accessed in the facsimile published in 1971 [Camden's *Britannia* 1695. A facsimile of the 1695 edition published by Edmund Gibson, introduction by by Stuart Piggott. David and Charles 1971] and a detailed description of the road appears in the *History of Merioneth* [vol. I, pp.246–53]. Camden is a reliable source and he was evidently drawing on a contemporary legend. His work was highly regarded by contemporary antiquarians and historians and the Latin text went

Higher up, in the confines of this County and Caernarvonshire, two notable arms of the sea encroach on the land, call'd *Y Traeth mawr* and *Traeth bychan*, that is, the *Greater Wash or Frith*, and the *Lesser*. And not far from hence, near a small village call'd *Festineog*, there is a high road or military way of pitch'd stones, which leads thorough these difficult and almost unpassable mountains; and seeing it is call'd in British *Sarn Helen*, or *Helen's way*, it is but reasonable that we suppose it made by *Helena* the mother of *Constantine the Great*; whose works were many and magnificent throughout the *Roman Empire* [d].

through several editions. The 1607 edition was freely translated into English by Philemon Holland in 1610 [a transcript is accessible at <http://www.philological.bham.ac.uk/cambrit>. See also Oliver D. Harris, 'William Camden, Philemon Holland and the 1610 edition of *Britannia*', *Antiquaries Journal* 95, pp.279–303]. The first reliable translation is that in Gibson's edition which is especially valuable for Wales as it contains the additions made by Edward Lhuyd – a keen admirer of Camden's work [Nancy Edwards, 'An Archaeologist's view', *Welsh History Review*, 25, p.21] when he was keeper of the Ashmolean Museum in Oxford.

The second mention is in a will of Edward Price of Newtown, Montgomeryshire, entered in the probate registers of the Prerogative Court of Canterbury in 1627 (National Archives PROB 11/151/428) printed in the


Montgomeryshire Collections (21, p.199). Price left property in Aberhafesb and, more relevantly, two acres of land adjoining *Surne Ellen* in the parish of Newtown. An online copy of the will shows that *Surne* is indeed the correct reading and that it is likely to be a copyist's error for *Sarne* as the Rev. W.V. Lloyd (p.202) supposes. No other reference to Sarn Elen in Newtown seems to survive in written records and the will provides few clues to its location save that the parcel of land was located in the township of Dyffryn Llanfair which was that part of the parish on the south side of the river Severn. A Roman road running between the auxiliary forts at Caersŵs and Y Gaer (between Montgomery and Forden) – roughly along the line of the A489 - has long been supposed in this area (W.G. Putnam, 'The Roman Road from Forden to Caersws', *Montgomeryshire Collections* 58, pp.3-16) and was identified by Richard Fenton in 1804 near Caersŵs (*Tours in Wales (1804–13)*, ed. J. Fisher. *Archaeologia Cambrensis* supplement. London 1917, pp.35–6). He adds that a ridge on the right of the road leading from Newtown to Welshpool is called 'the Roman Road' in ancient terriers and that it marked the boundary of the parishes of Newtown and Llanllwchaearn. Detailed descriptions of its course – based largely upon personal observation and chance finds of Roman material – are given by T.W. Hancock in 1848 (*Archaeologia Cambrensis* 1848, pp.95–6) and by Richard Williams in 1902 (*Montgomeryshire Collections* 32, p.186). Its existence is confirmed on Ordnance Survey maps from 1885 which show the course of the road running eastwards from Caersŵs past Maes-mawr Hall hotel to Red House in the direction of Newtown and especially by its identification in 2009 by archaeological excavations in a field (SO 11499151) adjacent to the Smithfield on the present site of Tesco's supermarket (<http://www.coflein.gov.uk/en/site/409132/images>; <https://bit.ly/2NIIKXM>). The precise location of *Surne Ellen* in 1627 is uncertain but it probably referred to a stretch of the road – now under Maesyrrhandir housing estate – a little to the north of *Copa Helan*, a name applied to parcels 229 and 231 on the Newtown tithe map which are shown as a single piece of land no. 123 on the Ordnance Survey 1:2,500 plan of 1885 at SO 097903. This is also recorded as a parcel of land called *Copy Hilan* in 1788 [National Library of Wales GLAERN/11524].

Road names such as Sarn Elen pose many problems, largely because early evidence is so patchy. The once important 'Flemish Way', running from the vicinity of Llandyfalle up to the ridge of Mynydd Epynt, Breconshire, has but a single mention by name *viam Flandrensem* 1291 (see author in 'Paths and perambulations' in *Brycheiniog* XLVII) and is simply a 'highway' in 1691. By contrast, the ridgeway running east-west on Mynydd Epynt is described as 'the king's road' *Y Genffordd ar Eppint* in 1623 and this is confirmed in later sources. Sometimes it is difficult to decide whether a *via regalis* stands for Ffordd y Brenin and whether *cefnffordd* 'ridgeway' is simply a description of its course and location rather than a fixed name. Part of the boundaries of the hill Cefn yr Aelwyd on the border of Montgomeryshire and Radnorshire is simply *Keuenforth* in 1281 referring to what is now a bridleway but we have no evidence to show that it survived as a name. Many road names also possessed only a local application. One good example is the Roman road – probably following a prehistoric ridgeway – running from the fort at Caerffili to Gelli-gaer and northwards to Fochriw, co. Glamorgan. This possessed at least three names in historical records in a distance of just eight miles. North of Gelli-gaer it is Heol Adam recorded in a house-name Tir Pen-heol-Adam (*Tir pen hewle Adam* 1766). South of Gelli-gaer, its course is uncertain but probably continued as Heol Pontysaeson and Heol Las (recorded as *Heol Lâs* 1885-9, and in *Pen r heol lase* 1795); the last forms part of the boundary of the parishes of Eglwysilan and Llanfabon. A sharp critic might conclude from all of this that our two references to Sarn Elen in 1586 and 1627 prove only that the name applied to the Roman roads at Ffestiniog and Newtown but that is very unlikely. Firstly it is worth stressing that they derive from two distinct and very different sources and secondly that the two roads are more than thirty miles apart. That surely confirms the supposition that Sarn Elen was current as a name for a Roman road and strengthens the case for reliance on the references in the Gibson *Britannia*, the Lhuyd correspondence and *Parochialia*. Whether that is the case with later references is quite another matter. Do we have any other early mentions of this road name?

Richard Morgan

Enwau Lleoedd Brycheiniog a Maesyfed

Yn ddiweddar mae sawl Menter iaith dros Gymru wedi mynd ati i gynhyrchu llyfrynau bach defnyddiol yn trafod enwau lleoedd eu hardaloedd wrth iddynt groesawu Eisteddfod yr Urdd atynt, ac eleni, ar 1 Mehefin, ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Llanelwedd, lanswyd *Enwau Lleoedd Brycheiniog a Maesyfed*, yn ffrwyth cydweithio y tro hwn rhwng Menter Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Sir Powys.



Dyma lyfryn bach hynod ddiddorol, hollol ddwyieithog, yn bwrw golwg ar hanes rhai o enwau lleoedd y fro. Mae'n cynnwys enwau trefi, pentrefi a ffermydd, mynyddoedd, llynnoedd a nentydd – ac mae'r llyfryn yn llawn gwybodaeth a fydd o ddefnydd i drigolion lleol de Powys ac i ymwelwyr â'r fro.

Wrth lansio'r llyfryn, dywedodd Bethan Price, Cydlynnydd Menter Brycheiniog a Maesyfed: 'I nifer o drigolion yr ardal hon, mae'r iaith Gymraeg yn amlwg mewn enwau lleoedd yn unig – ac rydym ni'n ffodus iawn yn yr ardal i gael nifer o enwau diddorol tu hwnt! Mae

enwau lleoedd yn gallu tanio diddordeb yn y Gymraeg, ac mae dealltwriaeth yn gam pwysig at sicrhau nad yw enwau traddodiadol yn cael eu newid i'r Saesneg. Mae'r llyfryn yma hefyd wedi bod yn gyfle i nodi rhai hanesion a chwedlau lleol a fydd o ddiddordeb i bobl leol ac i ymwelwyr.'

Am gopi caled neu gopi PDF o'r llyfryn, cysylltwch â Bethan Price, Menter Brycheiniog a Maesyfed: bethan.jones1@powys.gov.uk. I weld fersiwn ar lein, ewch i <https://bit.ly/2onO5yx>.

[A small and very useful bilingual booklet, *Place names of Breconshire and Radnorshire*, was launched at the Urdd National Eisteddfod in Llanelwedd on 1 June this year. A hard copy or PDF version can be requested by contacting Bethan Price of Menter Brycheiniog a Maesyfed, bethan.jones1@powys.gov.uk. For an online version, visit <https://bit.ly/2onO5yx>.]



Enwau tai a ffermydd Bont-goch (Elerch) Ceredigion

Mae ail argraffiad o'r gwaith hwn bellach ar gael am £9.99 o siopau llyfrau, gwales.com, neu'n uniongyrchol am £12.00 i gynnwys cludiant oddi wrth yr awdur:

Richard E. Huws: rehuws@btinternet.com

Cyfeiriad: Pantgwyn, Bont-goch (Elerch), Ceredigion SY24 5DP

Trelluest?

Yn sgil lansiad rhestr panel Comisiynydd y Gymraeg o enwau lleoedd safonol Cymru ym mis Mehefin eleni, bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl i'r ffurfiau hynny sy'n gyfieithiadau neu addasiadau o enwau anghyfaith, ond dilys (rhai Saesneg gan mwyaf) i'r Gymraeg. Nid yw enwau Caerdydd yn eithriad i'r duedd hon, ond fe ddylid cofio bod cywirdeb yn y modd y cyfieithir neu yr addesir yn llwyr angenrheidiol rhag colli arwyddocâd hanesyddol yr enwau gwreiddiol. *Trelluest* yw'r enw Cymraeg a ddyfeisiwyd i gyfieithu enw *Grangetown* ac sydd yn cael sêl bendith cyhoeddiadau swmpus fel *Gwyddoniadur Cymru* ac eraill. Y mae'r ffurf hon ar fin ennill ei phlwy.



Fel y mae'n bur wybyddus, yn yr Oesau Canol yr oedd gan fynachlogydd de Cymru eiddo yn nhref fechan a gwledig Caerdydd a'i chyffiniau: Mynachlog Nedd yn dal nifer o fwrgeisiaethau a'u rhenti, Abaty Llantarnam (Nant Teyrn) yn berchen *Mynachdy*, ger Gabalfa, a'r enw Cymraeg hynafol hwnnw yn dangos ei wir natur, sef 'ffermdy allanol yn perthyn i fynachlog', nid 'mynachlog' (*Manachdy* 1578, *Menaughty* 1596, &c.). Y term Saesneg am ddaliad o'r math hwn yw *grange* (neu *grangia* yn y dogfennau Lladin), ac yr oedd gan abaty Sistersaidd Margam ddwy ohonynt yng Nghaerdydd. Nid oes tystiolaeth bod enwau Cymraeg ar gael ar y naill na'r llall. Lleoliad un ohonynt, yn fras, oedd y tir rhwng pen uchaf Heol y Crwys a Heol Llantrisant, lle diddymwyd yr hen adeiladau yn 1899. Adwaenid hon yn ddiweddarach fel y *Cathays Grange*, ond os oedd enw penodol arni ar un adeg, nid yw bellach i'w gael mewn unrhyw ffynhonnell hyd y gwn.

Gadawodd y llall ei hôl yn enw *Grangetown*, cymuned de-orllewin Caerdydd rhwng afonydd Elái a Thaf a'u haberoedd, a hyd yn ddiweddar fe safai hen ffermdy *Grange Farm* a godwyd ar y safle ar ochr ddwyreiniol Clive Street. Cyfeirir ati yn y dogfennau cynnar fel uned a safai ar y morfa ger Caerdydd, *grangia in mora juxta Kerdif* 1329, *Moregraunge* 1423, *Morgraing* 15fed ganrif, ac yn rhan o 100 acer o dir a oedd yn rhodd larll Caerloyw, Arglwydd Morgannwg bryd hynny, i esgob Llandaf tua chanol y ddeuddegfed ganrif a thrwy law'r esgob i Fargam, fel un o dri ar ddeg o unedau tebyg a oedd ym meddiant y fynachlog, *Leckwith Moors* erbyn heddiw. Fel gyda'r gweddill o'r mynachdai ar hyd a lled y wlad, yr oedd hon yn uned amaethyddol bwysig, ac yn fodd cynhaliaeth ariannol a masnachol. Y tebyg yw mai fel porfeydd i dda byw yn bennaf y defnyddid y tir yn yr achos hwn, ond fe ddichon fod yno ganolfan gadarn ei gwneuthuriad, yn cynnwys adeiladau pwrpasol gyda chlawdd wedi ei godi i rwystro'r môr rhag gorlifo porfa a thir âr. Yn wir, edrychid ar y mynachdai mewn nifer o leoedd fel unedau digon sylweddol i ddwyn yr enw *cwrt*, fel *Cwrt Sart*, *Cwrtybetws*, *Cwrtrhydhir* ym meddiant Mynachlog Nedd, ac eraill.

Ai *llest* oedd lle felly? Go brin. Diffiniad sylfaenol *Geiriadur Prifysgol Cymru* o'r gair yw 'trigfan dros dro wedi ei chodi ar frys', ac y mae wedi ei addasu i olygu gwahanol fathau o llestau wrth gwrs, yn arbennig mewn cefndir gwledig, 'bwth neu lety bugail', man a ddefnyddid dros dro yn yr hen gyfundrefn o hafota a hendrefa, fel y dangosodd yr Athro Melville Richards. Ymddengys yn y ffurf lafar *llest* hefyd mewn amryw leoedd. Yn wir, ar odre tir y Mynachdy mewn man diarffordd ym mhlwyf Llanwynno y mae *Llysnant*, ond *Lleast y nant* yn 1679, *Llest y Nant* 1753, *Lestnant* 1782, &c. (sy'n dangos, gyda llaw, pa mor ofalus y mae'n rhaid i'r sawl sy'n ystyried enwau lleoedd fod rhag camarwain pobl, haneswyr yn arbennig, i gredu bod yma safle dipyn mwy sylweddol na *llest*, sef *llys*). Ceir hefyd y ffurf *llesty* yn lled gyffredin, gyda'r ffurf luosog *llestai* a aeth yn yr enw *Llestailwydion* ym mhlwyf Aberdâr yn *Llestailwydion* ar lafar.

O'r safbwynt hwn yn unig felly, nid yw *Trelluest* yn ffurf Gymraeg foddhaol ar *Grangetown*, ac fe ellir ychwanegu ystyriaeth bellach, sef bod cryn amheuaeth am addasrwydd y defnydd o'r ffurf *tref* fel elfen gyntaf yn ogystal. Nid yw'r enw *Grangetown* yn hen iawn. Nid y *tref* sy'n cyfateb i *tūn* mewn Hen Saesneg ac a welir yn y terfyniad

-ton mewn enwau Saesneg diweddar yn yr ystyr gynharach o 'fferm, cartrefle' teuluol neu bersonol sydd yma, ac ni fyddai hynny yn addas i gyfleu yr hyn a olygir wrth fynachdy pa un bynnag. Nid yw'r enw *Grangetown* yn gynharach na chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Hyd hynny, yr oedd yr hen *Grange Farm* a godwyd ar weddillion yr hen fynachdy yn sefyll yn hollol ar ei phen ei hun ar y morfa. Y mae J. Hobson Matthews, a gyhoeddodd y cyfrolau gwerthfawr sy'n cynnwys dogfennau hanesyddol dinas Caerdydd yn y blynyddoedd 1898–1911, yn dweud bod pobl a oedd yn fyw yn ei amser ef yn cofio nad oedd un adeilad rhwng bwrdeistref Caerdydd a Phenarth i'w weld ac eithrio'r hen fferm. Y mae map o'r dref yn 1835 yn dangos y fferm a dim ond rhes fechan o dai yn ei hymyl yn dwyn yr enw *Grangetown*. Perthyn i'r cyfnod diwydiannol, pan oedd y boblogaeth yn dechrau ymestyn allan i ardaloedd y tu hwnt i furiau'r hen fwrdeistref yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y mae'r enw yn y ffurf hon, cymar i *New Town*, *Temperance Town* a *Butetown* (hithau'n cael yr un driniaeth yn ddiweddar yn y ffurf fabwysiedig *Tre-biwt*).

Y mae lle i ailystyried y ffurf *Trelluest*, ond mae'n rhaid cydnabod nad yw yn broblem hawdd i'w datrys. Mae gennym un *Mynachdy* yng Nghaerdydd eisioes. Tybed a yw hi yn awr yn rhy hwyr?

[*Trelluest is a fairly recent translation of the English name Grangetown, and seems to be gaining ground today. However this article asks whether Trelluest is indeed a suitable translation, and suggests that care should be taken in creating Welsh forms for English place-names within Wales, to make sure that important historical information provided by the original names is not lost.*]

Gwynedd O. Pierce

Book Review:

***Place Names in the Brecon Beacons National Park*, by Malcolm Llywelyn**

Published 2018, by Gwasg Carreg Gwalch; paperback, 150x155mm, 128 pp.; ISBN 9781845242756


Malcolm Llywelyn's *Place Names in the Brecon Beacons National Park* is an interesting introduction to the names of the area, and of particular interest to those from outside the region who may not be familiar with the places described. A brief description of Welsh pronunciation is given at the front of the book, making the work

more accessible to non-Welsh speakers, a theme which is continued by the decision to group the names alphabetically by element – a decision which again offers help to the non-Welsh speaker in deciphering how Welsh place-names work.

The evocative pictures of places named in the volume add to its appeal, as do the occasional variant spellings given. The information given on obscure or archaic Welsh words increases the interest for the Welsh speaker, or the reader already knowledgeable about place-names, and for those wishing to learn more, a short bibliography is appended, pointing the reader at more in-depth studies. The snippets of historical information appended to some of the names are fascinating, although more examples would have been greatly appreciated.

There are unfortunately a number of spelling mistakes, some of which interfere with the reader's understanding; are 'claisfer' and 'cleisfer' (p.51) variant spellings, or is one a mis-spelling, for example? Despite these minor problems, Malcolm Llywelyn has produced an excellent introduction to the place-name heritage of the area, which will be of great interest to visitors to the park, locals, and to inhabitants of the rest of Wales alike.

James January McCann



Comisiynydd y Gymraeg yn lansio Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru

Mae safoni enwau lleoedd Cymru yn broses sy'n digwydd ers degawdau erbyn hyn a phawb ohonom yn hen gyfarwydd rwy'n siŵr â gwaith trylwyr Elwyn Davies yn y maes. Yn wir, mae *Rhestr o Enwau Lleoedd* yn Feibl i



nifer ac yn sylfaen gadarn i'r gwaith safoni sy'n parhau i ddigwydd. Efallai nad pawb sy'n ymwybodol, fodd bynnag, fod argymell ffurfiau safonol enwau lleoedd yn un o gyfrifoldebau penodol Comisiynydd y Gymraeg bellach: trosglwyddwyd y cyfrifoldeb o'r Swyddfa Gymreig i Fwrdd yr Iaith Gymraeg cyn cael ei etifeddu gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Fis Mai eleni cyhoeddwyd [Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru](#) ar wefan y Comisiynydd – rhestr sy'n dwyn ynghyd flynyddoedd o waith ymchwil ac ymgynghori ag

arbenigwyr ac awdurdodau lleol. Mae'n adnodd tebyg i eiriadur lle mae modd chwilio am enwau aneddiadau Cymru (pentrefi, trefi ac ati) er mwyn gwirio sut i sillafu'r enwau hynny mewn ffordd safonol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae modd chwilio'r Rhestr ar lein a'i lawrlwytho'n gyfan neu fesul awdurdod lleol.

Lansiwyd y Rhestr yn y Pierhead ym Mae Caerdydd ar 20 Mehefin eleni mewn digwyddiad a noddwyd gan yr Aelod Cynulliad Dr Dai Lloyd, a braf iawn oedd gweld llond ystafell wedi ymgynnull i ddatlu a dysgu mwy am y gwaith. Cafwyd annerchiadau difyr gan Dai Lloyd ei hun; Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg; Pam Whitham o'r Arolwg Ordnans, a soniodd am y cydweithio rhwng yr Arolwg Ordnans a Chomisiynydd y Gymraeg; a Dr Dylan Foster Evans, sy'n aelod o'n Panel Safoni Enwau Lleoedd.

Mae'r Panel Safoni Enwau Lleoedd, sy'n cynnwys arbenigwyr ym maes enwau lleoedd, wedi ei gynnull i gynghori'r Comisiynydd ar ffurfiau safonol enwau lleoedd a materion cysylltiedig er mwyn sicrhau bod sail ysgolheigaidd gadarn i bob argymhelliad a wneir yn enw Comisiynydd y Gymraeg. Wrth lunio'i argymhellion bydd y Panel yn ystyried ystyr, hanes a tharddiad yr enwau lleoedd, ynghyd â'r defnydd cyfredol ohonynt, gan ddilyn canllawiau penodol. Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am aelodau'r Panel a dod o hyd i [Ganllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru](#) ar wefan y Comisiynydd.

Er nad oes gan y Comisiynydd bwerau statudol yn y maes hwn, wrth gydweithio ag awdurdodau lleol, yr Arolwg Ordnans a Llywodraeth Cymru, nod y Rhestr yw sicrhau cysondeb, ynganiad cywir a chywirdeb orgraffyddol i enwau aneddiadau ac ardaloedd yng Nghymru. Gobeithio ei bod hefyd yn cyfrannu at warchod enwau lleoedd drwy:

- sicrhau nad yw ffurfiau anghywir neu ffurfiau hynafiaethol yn cael eu hatgyfodi;
- sicrhau statws i enwau Cymraeg sy'n cael eu harddel yn lleol ond nad ydynt y ffurfiau amlycaf o hyd;
- sicrhau nad yw ffurfiau Cymraeg neu Saesneg yn cael eu bathu ar fypwy.

Mae bod ag un ffurf safonol (neu ddwy pan fo ffurfiau Cymraeg a Saesneg i'w cael) yn bwysig yn ymarferol hefyd er mwyn hwyluso gweinyddiaeth gyhoeddus, sicrhau cysondeb ar arwyddion, mapiau a pheiriannau chwilio ar y we.

Bu'r derbyniad i'r Rhestr yn galonogol tu hwnt a bu'r ymateb a'r sylw yn y wasg ac ar y cyfryngau yn ysgubol. Cyrhaeddodd nifer o ymholiadau ers cyhoeddi'r Rhestr, ac mae'r gwaith o safoni enwau lleoedd ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn dal i fynd rhagddo er mwyn i'r Rhestr barhau i dyfu. Nid yw enw pob pentref bychan neu bentrefan wedi ei gyhoeddi yn y Rhestr eto, ac felly os dewch o hyd i unrhyw fylchau neu os oes gennych chi wybodaeth am ffurfiau yr hoffech eu rhannu â ni, byddem yn falch iawn o glywed gennych chi. Mae croeso i chi gysylltu â ni gan ddefnyddio'r [ffurflen ymholiadau](#) ar y wefan.



[You may already be aware that the Welsh Language Commissioner has a responsibility to provide recommendations on the standard

forms of Welsh place-names. On 20 June the [List of Standardised Welsh Place-names](#) was published and launched at the Pierhead building in Cardiff Bay in an event kindly sponsored by Dr Dai Lloyd AM. The List can be found on the Welsh Language Commissioner's website and includes recommendations on the standard spellings of settlements in Wales. A panel of experts in the field has been convened to advise the Commissioner on standard forms and related matters in order to ensure that each recommendation given in the name of the Welsh Language Commissioner is made on a firm scholarly basis. The Panel gives due regard to the meaning, history and etymology of place-names as well as current usage when forming its recommendations and follows specific guidelines which can be found on the [Commissioner's website](#). The List is a live resource that will continue to grow as the work of standardising place-names goes on. Should you have any queries or local knowledge that you would like to share with us, we would be very glad to hear from you. You can contact us by using the [query form](#) on the Welsh Language Commissioner's website.]

Manon Davies

Ar Enwau Lleoedd

Y profiad a adawodd yr argraff fwyaf arna' i yn ystod yr wythnos ddiwethaf oedd gwyllo ffilm fer (<https://bbc.in/2MoF0E2>) fel rhan o raglen deledu *Wales Live*, a oedd yn dangos y digrifwr Tudur Owen yn cerdded ar draws bae ar Ynys Môn – fel mae'n digwydd, bae yr ymwelais i ag e'n ddiweddar iawn. Nid y cerdded oedd yn tynnu fy sylw, ond yr hyn a ddywedodd Tudur am y bae. Ei enw yw **Porth Trecastell**, ond mae'n tueddu i gael ei alw, yn amlach na pheidio'r dyddiau hyn, gan enw Saesneg, Cable Bay – enw sy'n dweud bron dim, meddai Tudur, ond am y ffaith fod cêbl wedi bod yno unwaith. Mae'r geiriau Porth Trecastell, ar y llaw arall, yn hynod o awgrymog a llawn gwybodaeth – yma bu 'pwynt mynediad' unwaith (llawer cyn dyfodiad unrhyw gêbl), a chaer neu gastell o ryw fath, gydag anheddiad o'i gwmpas. Y pwynt – a wnaed gan Tudur ag arddeliad a nerth

– oedd ein bod ar fin colli nid yn unig enw a geiriau, ond rhan o'n hanes, a rhan o'r hyn sy'n rhoi ystyr i fywyd y bobl sy'n byw yma.

Rhoddodd Tudur sawl enghraifft arall o'r ffenomenon hwn. Yr un mwyaf sarhaus oedd newid **Llyn Bochlwyd**, heb fod yn bell o Lyn Ogwen yn Eryri – enw sy'n gysylltiedig â chwedl hudolus – i 'Lake Australia', gan fod siâp ffiniau'r llyn yn debyg, yn ôl rhai, i siâp Awstralia. Yr un mwyaf chwerthinllyd oedd newid **Cwm Cneifion** yn ardal Glyder Fawr – enw sydd, eto, yn llawn hanes – i 'The Nameless Cwm'.

Does dim modd gorfodi pobl i ddefnyddio enwau penodol, meddai Tudur, ond y cam cyntaf yw inni i gyd fod yn effro i'r perygl o golli ein hanes.

Cofio am y rhaglen hon yr oeddwn i yn ystod lansiad yn Adeilad y Pierhead nos Fercher ddiwethaf [sef 20.06.18] – lansiad o fas data newydd o enwau lleoedd safonol a drefnwyd o dan adain y Comisiynydd Iaith. Clywsom nifer o siaradwyr. Cyfeiriodd yr Aelod Cynulliad, Dai Lloyd, at ei gynneg ffurfiol (aflywyddiannus) gerbron y Senedd flwyddyn yn ôl i ddiogelu enwau lleoedd hanesyddol Cymraeg yn statudol.



Llyn Bochlwyd, Eryri

Wedyn cyflwynodd Dylan Foster Evans waith trylwyr y panel a fu'n gyfrifol am gynneg cyngor ar gyfer creu'r rhestr newydd o enwau. Fel yr eglurodd, drwy gyfeirio at nifer o esiamplau difyr, nid yw'n fater syml bob tro i bennu un ffurf 'gywir' ar enw. Er taw 'Tywyn' yw ffurf safonol enw'r dref lan-y-môr ym Meirionnydd y dyddiau hyn, nid felly oedd hi rai degawdau'n ôl: dangosodd Dylan glip o archif ITV Cymru o'r Llyfrgell Genedlaethol, lle cyfwelodd Gwilym Owen – wyneb iau ond llais cyfarwydd iawn – rai trigolion a oedd yn ffyrnig o blaid 'Towyn'. [Am y rhaglen honno, ewch i <https://bit.ly/2NWA8Y>.]

Y gred gyffredinol, meddai Dylan, yw bod 'Happy Valley', nid nepell o Dywyn, yn drosiad gwan o 'Gwm Maethlon', ond y gwir yw bod 'Cwm Maethlon' yn gymharol newydd: mae Happy Valley yn fersiwn Saesneg ar enw Cymraeg hŷn, Dyffryn Gwyn. Soniodd hefyd am golli enwau Saesneg, fel 'Crockherbtown' yng nghanol Caerdydd a lyncwyd gan 'Queen Street' (roedd dylanwad Fictoria ar enwau'n ddinistriol) – er gwaetha protestiadau gan John Hobson Matthews, archifydd bywiog y dref. Mae setlo ar ffurf safonol, felly, yn golygu llwyth o ymchwil ieithyddol a hanesyddol – yn ogystal ag ymgynghori'n eang, gan fod enwau lleoedd Cymraeg yn gallu peri anghydfod difrifol ar adegau.

Braf hefyd oedd clywed gan gynrychiolydd o'r Arolwg Ordnans. Yn y gorffennol nid yw'r OS wedi dangos parch bob amser i enwau brodorol – soniodd Meri Huws yn y lansiad am ddrama enwog Brian Friel, 'Translations' – ond mae'n galonogol clywed bod yr OS bellach yn troi at staff ac ymgynghorwyr y Comisiynydd am arweiniad ar ba ffurf i'w defnyddio ar fapiau.

Mae'r gronfa ddata newydd yn cynnwys bron i 3,000 o enwau. Rhaid dweud bod y rhyngwyneb yn edrych braidd yn blaen ac yn ddi-fflach, ond bydd modd, o bosibl, ei gyfoethogi trwy ychwanegu mapiau neu opsiwn i bori, neu drwy ddatblygu 'ap' i'w ddefnyddio 'yn y maes'.

Efallai hefyd y gellir ehangu'r gronfa ddata i gwmpasu nid yn unig drefi a phentrefi ond hefyd leoliadau naturiol (nid yw Cadair – neu Gader? – Idris yno eto) a lleoliadau llai, fel ffermydd unigol. Dyna'r lle mae colledion yn digwydd yn gyflymach, mae'n debyg, wrth i bobl allanol symud i mewn i hen ffermydd a thai, a rhoi enwau

newydd, Saesneg iddynt, heb feddwl am eiliad am y canlyniadau. Fe welais i sawl enghraifft o'r broses hon yn ystod ein teithiau cerdded trwy Gymru wledig dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ffodus mae'r mudiad Mynyddoedd Pawb yn ymwybodol iawn o'r broblem.

Mae'n annhebygol, efallai, y gwelwn ni ddeddf i ddiogelu enwau lleoedd, o leiaf am y tro, ond yn y cyfamser mae gwaith i'w wneud yn ein cymunedau i bwysleisio pa mor bwysig yw enwau hanesyddol, o ran hunaniaeth, addysg a hunanhyder.

[This is an extract from the blog of 'gwallter' (gwallter.com), 22.06.2018. He was particularly impressed by a short film (<https://bbc.in/2MoF0E2>), part of the TV programme Wales Live, in which the comedian Tudur Owen drew attention to the fact that important information about the history of our place-names is lost when they are carelessly translated into English. Whilst Porth Tre Castell informs us of the past importance of a particular bay in Anglesey, the English translation, Cable Bay, tells us nothing apart from the fact that there used to be a cable there at one time. Similarly, renaming Llyn Bochlywd in Snowdonia as Lake Australia, because it happens to take the shape of that country, again tells us nothing of the folklore associated with the Welsh name. He then gives us a summary of the proceedings at the Pierhead in Cardiff, at the launch of the Welsh Language Commissioner's important 'List of Standardised Welsh Place-names'. Although it is unlikely that Welsh place-names will be protected by law in the near future, he notes that there is still work which we can all do in our communities to emphasise their importance as regards our identity, education and self-confidence.]

gwallter.com (Andrew Green): 'blogfan a mwy o Abertawe', 22.06.2018

Cystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol

182. Casgliad o hyd at 30 o enwau lleoedd unrhyw ardal, pentref neu dref yng Nghymru gyda thrafodaeth ar eu hanes a'u hystyron a chofnod o'u cyfeirnod grid. Dylid hefyd, pan fo hynny'n bosibl, nodi ffynhonnell yr wybodaeth. Gwobr: £200 gan Amgueddfa Werin Cymru [o Gronfa Goffa Elizabeth Reynolds, Brynhoffnant].

Dyna'r dasg a osodwyd yn y *Rhestr Testunau* ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd eleni. Mae'n siŵr fod sawl un ohonom wedi meddwl pa mor braf fyddai rhoi cynnig arni, ond gwych yw gweld o'r *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* fod 13 ymgeisydd wedi gwneud mwy na meddwl am y peth, ac wedi llunio casgliadau diddorol, bob un, gan blesio'r beirniad, David Thorne, yn fawr. 'Penyberth' aeth â'r wobwr gyntaf, am 'chwil o drafodaeth sy'n dangos ôl ymchwil trylwyr ac aeddfed' ar enwau ardal Llanfair Pwllgwyngyll ym Môn. Yn dilyn rhagarweiniad cryno i'r astudiaeth, cafwyd esboniad manwl ar yr enwau a ddewiswyd, gan fanteisio ar amrywiaeth eang o ffynonellau, 'yn cwmpasu dogfennau lleol, gweithiau gan haneswyr lleol a sylwadau awdurdodol arbenigwyr ym maes enwau lleoedd'. Ac i uno'r cyfan cyflwynodd 'Penyberth' hefyd gyfres o fapiau i roi cyd-destun eglur iawn i'r enwau. Llongyfarchiadau mawr iawn iddo (sef Gerwyn James, Llanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn).

Gobeithio y bydd 'Penyberth' a'i gyd-gystadleuwyr yn barod i rannu peth o'u gwaith ymchwil gyda ni yn y dyfodol!

[There were 13 competitors in a competition set by the National Eisteddfod at Cardiff this year, to create a collection of 30 place-names, explaining their history and meaning and giving their grid references. 'Penyberth' (Gerwyn James of Anglesey) took the first prize, with much praise from the adjudicator, David Thorne, for an authoritative study of 30 place-names from around Llanfair Pwllgwyngyll, Anglesey.]

Craig Cibwr

Pan sefydlwyd bwrdeistref Caerdydd ar ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg, ynys fechan estronol oedd hi fel llawer o'r bwrdeistrefi planedig eraill yng Nghymru, mewn gwlad hollol Gymreig a Chymraeg, sef cwmwd deheuol cantref Senghennydd, cwmwd Cibwr (nad oes neb hyd yn hyn, hyd y gwn, wedi esbonio tras ac ystyr ei enw yn foddhaol). Yr oedd yn cynnwys y tir rhwng rhannau deheuol afonydd Taf a Rhymni a feddiannwyd gan y Normaniaid fel arglwyddiaeth Caerdydd, o fewn arglwyddiaeth Morgannwg, ac wedi ei wahanu oddi wrth y gweddill o Senghennydd gan res o fryniau yn rhedeg o gyffiniau Tongwynlais i'r dwyrain. Bellach, y mae dinas Caerdydd wedi tyfu nes llenwi'r holl gwmwd, i bob pwrpas, gan ledu hefyd i'r gorllewin hyd at afon Elái a phellach na hynny.

Erbyn hyn, fel y gŵyr pawb, cyfeirir at y tir uchel hwn yn gyffredinol fel *Mynydd Caerffili* am reswm digonol, ond y mae yn cynnwys nifer o wrymiau, bryniau yn wir, a nodweddion eraill ac iddynt eu henwau eu hunain, ac i fod yn fanwl, y tebyg yw mai'r hyn a olygir yn benodol wrth y term hwnnw yw'r codiad tir gerllaw'r ffordd A469 i lawr i dref Caerffili (ST 1530 8855) lle bydd pobl yn cerdded eu cŵn ac ati, tir comin, gyferbyn â'r maes parcio gerllaw'r ffordd gyda maes golff Caerffili wrth ei odreon. Cyfeirir at hwn fel *Caerphilly Common* ar fapiau'r Arolwg Ordnans ers 1899 o leiaf.

Tua thro'r ganrif cyhoeddwyd cyfarwyddiadur i ddinas Caerdydd gan Wasg y Brifysgol lle cyfeirir yn y llinell gyntaf at 'the ridge of Caerffili Mountain. The ridge is also known as Cefn Cibwr', ac yn gyson wedyn yng ngweddill y llyfryn. Ofnaf na allaf gytuno â hyn. Fel y nodir uchod, y mae yna nifer o enwau ar amryw o'r gwrymiau unigol a gynhwysir yn y term cyffredinol *Mynydd Caerffili* ac un o'r rhai hynny yw *Craig Cibwr*, nid *Cefn Cibwr*. Y mae'n wir fod *Cefn-onn* a *Chefnarnau* i'w cael ymhlith yr amrywiol enwau yn y cyffiniau, ond yn llawer mwy niferus ceir enwau sy'n dechrau â *craig*, fel *Craig-yr-allt*, *Craig Llanishen*, *Craig Wenallt*, *Craig Llysaen*, *Y Graig Goch*, a lleoliad *Castell Morgraig* (*mawr* + *craig*) heb fod ymhell o *Ben-y-graig* sydd i'w weld yn yr enw *Draenen Pen-y-graig* (*Draynen-Kraig* 1650, *draynen Pen y graig* 1703, sef, yn fras, lleoliad y *New House* presennol, *Dan y Drainen* ar fap Emanuel Bowen yn 1729, y gwelir ei ôl bellach yn enw Saesneg ardal *Thornhill*).

Yn ogystal, profir ffurf yr enw *Craig Cibwr* a'i safle mewn nifer o ddogfennau. Y gyntaf, *Kreic Kybor* mor gynnar â 1443 mewn arolwg o dir larll Plymouth, *Craige Kybor* gan Rhys Amheurig o'r Cotrel yn 1578, *Kraig Kebur* 1607, *craig Kybor* 1653, *Graig Kibbor* 1703, &c. Ond dim sôn am *Gefn Cibwr*.

Prin y gellir osgoi'r dystiolaeth hon, ond fe ddylid rhoi sylw i un ffaith a all fod yn rheswm dros greu'r amryfusedd gan fod dogfen ymhlith papurau Abaty Margam sy'n cofnodi rhodd o dir i'r abaty ar eithafion gorllewinol cefnen sylweddol a nodedig *Cefncribwr* i'r gogledd o Ben-y-bont ar Ogwr. Ar y gefnen hon ceir olion amddiffynfa fechan a enwir yn *castellum Kibur* (*Castell Cibwr*) ar safle a enwyd yn *Pen-y-castell* yn ddiweddarach. Ai *Castell Cribwr* oedd hwn yn wreiddiol ond bod rhyw gamgymeriad wedi ei wneud gan ysgrifwr di-Gymraeg a hepgorodd yr *-r-*, oherwydd mewn dogfen arall sy'n dyddio o tua dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg ffurf yr enw yw *Castell Kribor*?

O ystyried yr ansicrwydd hwn, ac yn niffyg tystiolaeth gadarn mai *Cefn Cibwr* yw enw'r rhan o Fynydd Caerffili sydd dan sylw, fe fyddai dylanwad arwynebol ffurf yr enw adnabyddus *Cefncribwr* efallai'n ddigon i sicrhau ei fodolaeth er nad oes arlliw o'r *-r-* ganolog yn enw cwmwd *Cibwr*.

Un dylanwad arall a allasai fod wrth gefn defnyddio'r ffurf *Cefn Cibwr* hefyd yw barn J. Hobson Matthews yn ei gasgliad gwerthfawr a dylanwadol o ddogfennau hanesyddol Caerdydd a gyhoeddwyd yn 1898–1911. Yn ei ymdriniaeth ag enwau lleoedd y gymdogaeth ni restrir *Craig Cibwr* na *Chefn Cibwr*, ond ar sail y ddau enw *Cefncarnau* a *Chefn-onn* yn unig ceir 'one of the eminences on the Cefn chain of hills, north of Cardiff' am y cyntaf, a 'part of the Cefn range of hills' am yr ail, ac a fyddai'n gefnogol i'r ffurf *Cefn Cibwr*.

[*Cibwr, the southern commote of Senghennydd, contained land between the southern reaches of the rivers Taff and Rhymni, separated from the rest of the cantref by a series of hills, generally known as Caerphilly Mountain,*

stretching from Tongwynlais eastwards. However many of the individual hills and ridges that constitute this 'mountain' have their own individual names, and one of them has become known as Cefn Cibwr. The article shows that Cefn Cibwr is historically an invalid form, and that Craig Cibwr, a form attested in early documents, was originally the name for one of the individual ridges. The name Craig Cibwr may have been confused with the well-known Cefn Cribwr, resulting in the new form, Cefn Cibwr.]

Gwynedd O. Pierce

A gawn ni ddiogelu ein henwau lleoedd? Gweithdy llwyddiannus yn gam cyntaf

Mae'n bleser cofnodi bod y gweithdy cofnodi enwau lleoedd a gynhaliwyd yn Neuadd Ogwen ar 24 Chwefror wedi bod yn llwyddiant arbennig. Cynhaliwyd y gweithdy dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ac yr



ydyd yn hynod ddiolchgar i Dr Rhian Parry, Ifor Williams a'r Athro Hywel Wyn Owen am eu llafur yn trefnu'r achlysur. Cafwyd cydweithrediad rhagorol i hwyluso'r gwaith gan Dilwyn Llwyd, rheolwr y neuadd.

Yn ystod y dydd, ymwelodd dros 70 o bobl â'r gweithdy ac yr oedd brwdfrydedd y cyfranwyr nid yn unig yn heintus ond yr oedd eu cyfraniadau'n wirioneddol werthfawr. Bu cofnodi brwd a thrafodaethau manwl ar byllau Afon Ogwen, ar bonciau Chwarel y Penrhyn, ar enwau caeau ffermydd yr ardal ac ar gofnodi'n gywir nodweddion daearyddol llethrau a mynydd-dir Dyffryn Ogwen, heb sôn am enwau strydoedd a thai ein hardal. Diolch i bawb a gyfrannodd ond megis dechrau y mae'r gwaith! Fel y soniodd

un cyfrannwr wedi iddo gofnodi dros 30 o enwau caeau, yr oedd map ei ran ef o'r ardal yn dal yn rhyfeddol o wag wedi iddo orffen!

Sut mae symud ymlaen gyda'r dasg o gofnodi enwau cyn iddynt fynd i ddifancoll? Trasiedi Dyffryn Ogwen yw na wnaeth y llipryn a oedd yn gyfrifol am gofnodi enwau ar fap y degwm yn 1845 ei waith o gwbl, gan adael y ddau blwyf ymhlith yr ychydig yng Nghymru sydd heb gofnod. Oni ddylem ni, felly, ystyried sefydlu panel ymchwil parhaol i barhau gyda'r gwaith gwych a gychwynwyd yn y gweithdy hwn? Gallai panel o'r fath gofnodi enwau mewn categorïau penodol mewn ardaloedd llai eu maint o fewn Dyffryn Ogwen, gan nodi'n drefnus i wneud iawn am y diffygion presennol. Y bwriad yw cael hynny sy'n bosibl o'n henwau lleoedd ar fap digidol a fydd ar lein at ddefnydd pawb. Byddant yn rhan o gofrestr Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a bydd hynny'n cryfhau'r alwad am ddeddfwriaeth i'w diogelu.

Efallai y byddai sefydlu panel dan warchodaeth ein dwy gymdeithas hanes yn fan cychwyn delfrydol i'r math hwn o waith. Byddai panel ymchwil o'r fath yn sicr o ennill cefnogaeth ac arweiniad gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

[This article describes a very successful workshop held to record place-names in Dyffryn Ogwen earlier in the year.]

The man who put Wales on the map



August 2018 saw the 450th anniversary of the death of Humphrey Llwyd in 1568, a year after the publication of William Salesbury's New Testament and Book of Common Prayer. Llwyd was instrumental in their publication by promoting the Bill for the translation of the Book of Common Prayer and the Bible into Welsh through Parliament as MP for Denbigh Boroughs. Salesbury described Llwyd as 'the most famous Antiquarius of all our country'. Llwyd was 'one of the most important of Welsh humanists and a key figure in the history of the Renaissance in Wales' according to Saunders Lewis.

The British Library is holding a one-day symposium on his life and legacies on 29 October (<https://bit.ly/2Q6xFHr>). The call for papers notes that 'His important book collection became, through the Arundel-Lumley bequest, a cornerstone of the British Library' and that his 'work lies near the heart of the early modern vision of 'Britain', and features

the first recorded use of the fateful phrase "British Empire". The *Cronica Walliae*, which Llwyd compiled in 1559, is also the earliest known source for the story of Prince Madoc, whose legendary twelfth-century voyage to America framed British fantasies of the New World from the reign of Elizabeth down to the nineteenth century.'

In August the National Library of Wales mounted an exhibition entitled 'The Man who put Wales on the map', commemorating in particular his work as a cartographer. He produced the first published stand-alone map of Wales (rather than as a part of another map), the *Cambriae Typus*, which appeared after his death as part of Abraham Ortelius's atlas, the *Theatrum Orbis Terrarum*, in 1573 or 1574. It was printed fifty times between that date and 1741.

It is quite a strange map, not as accurately drawn as the almost contemporary maps of Saxton. *Gwhyr* (Gower) is named, but it is not delineated as a peninsula. Place-names are trilingual, where appropriate: Welsh, English, and Latin, e.g. *Ty Dhewy*, *Saynt Daujjes*, *Meneuia*. There are some surprising omissions: no mention of Lampeter, for example. Spellings have sometimes suffered at the hands of the Flemish engravers, e.g. *DEHENBARTIA* (a Latin version of *Deheubarth*, with *-n-* in place of *-u-*) and *-ÿ-* frequently in place of *-y-*, as in Flemish.

The map has an antiquarian rather than a contemporary feel, showing medieval Welsh territorial units, not contemporary counties. The Severn and Dee are given as the basic boundary of Wales, with the Maelor area also included in Wales, together with *Elsmer* and *Croÿs Oswalht / Oswesthree*. We read that *Aberfrau* was formerly the court of all Wales and *Matrafal* that of Powys. The Teifi is recorded as the only river in Britain where beavers are found (following Gerald of Wales, not describing the contemporary 16th century situation).

The AHRC is funding a research project from April 2017 to March 2020, 'Inventor of Britain: The Complete Works of Humphrey Llwyd', based at the University of Exeter, in collaboration with the National Library of Wales, the British Library, Bangor University, and the Queen's University of Belfast. It will include research on 'Llwyd the map-maker'.

The project will 'digitise and analyse different editions of Llwyd's maps, comparing these against earlier, contemporary, and later maps of England and Wales, from European atlases and from maps of Britain.'

'This new research on Humphrey Llwyd the map-maker will add considerably to a growing digital corpus of historic maps of Great Britain and Ireland, as well as advancing our understanding of how Llwyd worked as a maker of maps at a particularly exciting point in the long history of European cartography.'

More details can be found at <https://bit.ly/2oJFcj8> and <https://bit.ly/2vSQW68>.

Gwarchod

Daw ein cynllun loteri, Gwarchod, i ben yn yr hydref eleni yn dilyn cyfnod o bum mlynedd dda o weithgareddau amrywiol. Bwriad Gwarchod oedd codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd a meithrin brwdfrydedd yng Nghymru dros eu gwarchod. Cafwyd ystod eang o weithgareddau amrywiol yn lleol ac yn genedlaethol, gan ymateb i'r galwadau gan unigolion a chymdeithasau. Llywiwyd y gwaith gan bwyllgor ymroddgar a brwdfrydig, a fu'n gweithio'n galed iawn i gynnal y Gymdeithas ac i'w datblygu. Gweithredodd y prosiect fel gwas bach i'r Gymdeithas, yn ei hyrwyddo a bod yn ddolen rhyngddi â'r cyhoedd. Bu'r ymateb i'w gweithgareddau yn gadarn o'r cychwyn ac o dipyn i beth, daeth yn rhan annatod o'r Gymdeithas. Bu arian y Loteri yn fodd i ymateb i geisiadau am wybodaeth, teithiau cerdded, cynadleddau blynyddol, arddangosfeydd a phresenoldeb mewn gwyliau cenedlaethol a rhaglenni radio a theledu. Bellach, mae'r Gymdeithas wedi ennill ei phlwyf ac mae mewn sefyllfa i fynegi barn a herio bygythiadau i enwau hynafol. Mae llawer eto i'w gyflawni.



Bu ein stondin yn Eisteddfod Caerdydd eleni yn brofiad newydd. Er bod y gofod yn fwy cyfyng ac yn ein rhwystro rhag trefnu gweithgareddau a sgysiau fel ym Môn, bu'n hynod o brysur a buddiol. Atebwyd amryw ymholiadau. Bu'r gwirfoddolwyr yn ffyddlon a'u brwdfrydedd yn denu aelodau newydd atom. Cawsom ymweliad gan staff Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a fu'n ymhyfrydu ym mhrysurddeb a bywiogrwydd y stondin. Denwyd diddordeb y di-Gymraeg gan baneli dehongli lleol ar gyfer Rhisga, Caerdydd a Glynwby. Denodd Ifor Williams yntau nifer o Aelodau Cynulliad Llafur, gan gynnwys y Prif Weinidog, i adael eu stondin gyfagos ac i ddod atom am sgwrs.

Ein her rŵan yw cynnal a chynyddu'r datblygiadau cyfredol a gwneud ein map digidol yn gyhoeddus. Er mwyn gwneud hyn ac i ddatblygu mwy o weithgareddau yn y Canolbarth a'r De, awn ati i lunio cais am gynllun loteri newydd. Trafodwyd ffurf a bras gynnwys prosiect newydd yn ein pwyllgor diweddaraf gan gynnig thema 'Llwybrau' fel un sy'n gynhwysol ac yn ddigon eang i glymu nifer o amrywiol weithgareddau lleol ar draws Cymru at ei gilydd.

Apeliwn felly ar aelodau i ystyried y posibiladau ar gyfer eu hardaloedd hwythau. Byddai'n arbennig o werthfawr cydweithio gyda chymdeithas, sefydliad neu grŵp gwirfoddol i ymchwilio neu er mwyn creu darn o waith. Bydd y prosiect yn gallu cyllido a chefnogi gweithgareddau o'r fath. Er mwyn cychwyn y broses, awgrymir fframwaith cyffredinol (am gopi o'r fframwaith, plis ebostiwch enwulleoedd@gmail.com), gan nodi rhai o'r ardaloedd lle yr hoffem weld datblygiadau. Byddwn hefyd yn gallu ystyried cefnogi gwaith ymchwil gan unigolyn os yw'n bwydo'r map digidol.

Rhian Parry

Gwarchod

Our lottery project, Gwarchod, ends this autumn after some five years of varied activities. Its purpose was to raise awareness of the importance of place-names and to stimulate interest in their preservation. A great variety of activities took place locally and more widely in response to demands from individuals and societies. The work was managed by a dedicated and enthusiastic committee, who have worked exceptionally hard to support and develop the Society. The project helped the Society to promote its aims and has been a link to the public. Responses to its activities were robust from the outset and, gradually, the project became a seamless part of the Society's activities. Lottery funding enabled the Society to respond to requests for information, guided walks, annual conferences, exhibitions and our presence at national festivals and radio and television programmes. Today, the Society has earned public respect and is in a position where it is able to express an opinion and challenge threats to ancient place-names. There is much yet to be accomplished.

Our stand at the National Eisteddfod this year was a new experience. Despite having more restricted space this year, and being unable to offer activities and talks, as was possible last year in Anglesey, it was extremely busy and productive with many enquiries being answered. The enthusiasm of our loyal volunteers managed to attract many new members. We enjoyed a visit from the staff of the Heritage Lottery Fund, who were amazed at the lively interest shown by visitors to the stand. Many non-Welsh speakers were attracted by the bilingual interpretation panels about Risca, Cardiff and Ebbw Vale. Ifor Williams enticed a number of Labour Assembly Members, including the First Minister, from their stand nearby to join us to discuss the importance of place-names.

Our next challenge is to maintain our present development and make our digital map accessible to the public. In order to achieve these aims and to develop more activities in Mid and South Wales, we plan to bid for a new Heritage Lottery Grant. Our management committee discussed this in some detail recently and suggested 'Llwybrau' (Paths) as a theme which is inclusive and broad enough to encompass several varied local activities across Wales.

We appeal therefore to our members to consider possibilities in their areas. Working in conjunction with other societies or voluntary groups to research topics or to create outcomes would be particularly useful. The project will be able to support and finance such activities. In order to start the process, the committee has suggested a general framework (for a copy, please email enwaulleoedd@gmail.com) which lists the areas where we would like to see developments. We will also be able to support research by individuals if this provides information for the digital map.



Our treasurer, Ifor Dylan Williams, explaining about the Society's objectives to the First Minister, Carwyn Jones, at the National Eisteddfod in Cardiff

Rhian Parry

‘Dal yr hyn sydd gennyf, fel na ddygo neb dy goron di’

‘Y mae o leiaf dri pheth i’w cyflawni cyn deall ohonom wir ystyr a hanes enwau lleoedd Cymru. Y mae angen eu diogelu, eu casglu, a’u dehongli. Gellir diogelu heb gasglu, a gellir cyflawni’r ddeubeth heb ddehongli; eithr y peth a fawr ddymunwn ydyw cyflawni’r tripheth yn ddiymdroi. Y mae diogelu’r enwau o fewn medr a gallu pawb ohonom; buddiol i’r rhai cymhwysaf yn unig ohonom ydyw’r casglu; ac, yn sicr ddigon, nid oes ond ychydig a fedd y cymhwyster a’r wybodaeth angenrheidiol i egluro a dehongli’r ystyron yn briodol a thrwyadl.

Golyga diogelu’r enwau lleoedd fwy na’u diogelu megis y diogelir aur ac arian mewn banc. Nid digon ydyw eu casglu a’u cadw dan glo. Chwenychwn iddynt gylchredeg yn gyson ymysg gwerin gwlad. Ni fynwn eu diogelu megis ag y diogelodd y gwas anfuiddiol hwnnw ei dalent drwy ei chuddio’n y ddaear, eithr ewyllysiwn yn hytrach eu defnyddio’n feunyddiol yn ein hymadroddion. Nid digon ydyw diogelu’r hen enwau drwy eu casglu a’u cadw mewn llyfrgelloedd, er cystal ydyw gwaith felly; y mae’n wir angenrheidiol i’w cadw’n fyw drwy annog pobl i’w harfer ar lyfr ac ar lafar. Marw i bob pwrpas ymarferol ydyw enw lle mewn casgliad, bydded hwnnw mor ddiogel ag y bo, eithr byw a defnyddiol pob enw lle a dreigla dros fin preswylwyr cwmwd a gwlad.

Ni allwn ni lai na chymell pob un a garo ei wlad a’i hen drysorau hi i’w gwyllo’n ddibaid, fel na ddygo neb pwy bynnag hwynthwy oddiamom. Collasom eisoes lawer peth gwerthfawr. Pan oeddym yn hepian ac yn cysgu cipiwyd ymaith lawer trysor, yn yr un modd ag yr ysbeiliwyd Ogof Arthur o’i haur a’i harian. Y mae ein henwau lleoedd ymysg ein trysorau pennaf. Ni fynwn eu colli ar unrhyw gyfrif.’

Allan o erthygl gan D. Arthen Evans, ‘Diogelu Enwau Lleoedd Cymru’, 1927, ar Wefan Cylchgronau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru: <https://bit.ly/2wlyqhl>, tt. 141–2, 160.

[An extract from an article by D. Arthen Evans, published in 1927 (see <https://bit.ly/2wlyqhl>), urging people to safeguard Welsh place-names by using them constantly in their every day speech.]

The Inventory of Welsh Battlefields

<http://battlefields.rcahmw.gov.uk/> | <http://meysyddbrwydro.cbhc.gov.uk/>

The Inventory of Welsh Battlefields is linked to section 35 of the Historic Environment (Wales) Act 2016 which states that the Welsh ministers must compile and keep up to date a historic environment record for each local authority area in Wales. This record should include ‘details of every conflict site in the authority’s area which the Welsh ministers consider to be of historic interest’. A conflict site is defined in the act as:

An area or location, terrestrial or marine, where a conflict occurred, involving military forces. All aspects of Wales’s past should be considered for the identification of historic battlefield sites, which may include traditional battles, sieges, invasions, skirmishes, ambushes, massacres and sites of civil unrest.

The need for such an inventory has long been recognised as both Scotland and England created such lists some years ago. Initial work focused upon those sites most likely to yield archaeological remains and forty-seven sites were subjected to detailed documentary research (reports are available online) and on the basis of those, ten sites were chosen for fieldwork and some excavation. After a project review it was decided that as little archaeological evidence could be found, rather than produce a register of major battlefields as had been done in Scotland and England, Wales would be better served by an inventory of sites of conflict which would inform developers and encourage further research. The bilingual inventory is now available online and will continue to be updated as more information comes to light and hopefully some archaeology!

The inventory was compiled from documentary sources and due to the scope of the project being the location of the battle, the attention was to focus upon the primary source for each site and then where possible secondary information which could help to locate the site. This also enabled the earliest form of the name given to the battle to be identified and show how the name had changed or been misunderstood by later works. Whilst battles from the medieval period are notoriously difficult to locate, Wales has good source materials which enable over 600 medieval battles to be listed in the inventory. New editions of the Breviate and Cottonian chronicles (B and C texts of the *Annales Cambriae*) by Henry Gough-Cooper and recent advances in our understanding of chronicle writing in medieval Wales have enabled a better understanding of previously obscure references. The Welsh *Brutiau* draw heavily upon the Latin texts, but crucially add important information and details not found in the Latin. Welsh poetry also provides valuable information and in the instance of *Pentraeth 1170* is our primary source. Chronicles written in England also add details and in some instances are our primary source for a conflict in Wales, examples include; *Brecaenmere 916* (*Anglo-Saxon Chronicle*), *Gower 1136* (*John of Worcester*) and *Dyserth Castle 1245* (*Liberate Rolls*). By the thirteenth century administrative records provide detailed information on troops and costs for repairing or reinforcing castles, which account for a large number of conflict sites.

The creation of a database enables statistics about Welsh conflict sites to be compiled. The thirteenth century alone has 226 conflict sites with the busiest years being 1215 (22 sites) and 1257 (21 sites). The *Glyndŵr* period (1400-10) is responsible for 66 sites and the *Civil War* (1644-51) provides 88, yet the sixteenth century has none. The sites with the most recorded conflicts are *Carmarthen* (19), *Cardigan* (14), *Llandovery* and *St Davids* (12) and *Aberystwyth* (10).

A number of the well-known place-names and locations associated with battles are the result of early tourists or antiquarian county historians who misunderstood their sources, which of course were not as well-known or available as today, or found a similar sounding name in their area and assigned the battle to that place. Some notable examples are:

The Viking attack on *Llanrhystud* in 988 which is a mistake made by David Powel in his 1584 *History of Cambria* (p.71) who took the *Llanilltud* of his source and wrote it as *Lhanrystyd*. However, *Llanrhystud* has acquired a civil war battle instead when a conflict occurred on a hill near the village in 1651.

Mount Carno (728) originates in the *Irish Annals* and is concerned with a site in Scotland, near *Loch Lochy*. However, material from the *Irish annals* had been added to the *Harleian chronicle* at *St Davids* by the mid-tenth century and subsequently were copied in other versions of the chronicle. It has nothing to do with Wales, but *Humphrey Lhwyd* identified it with a site near *Abergavenny* and *Theophilus Jones* with a site in the parish of *Llangadog* in *Breconshire*. This suggestion by Jones made it onto the first edition 6-inch *Ordnance Survey* map, but it was subsequently removed! *Iolo Morganwg* in his forged *Gwentian Brut* added a story of defeated Saxons drowning in the *River Usk* and elsewhere in the same source creates several battles that have no earlier



A stone obelisk erected in *Maes Garmon* in 1736 to commemorate the 'Alleluia Victory' of the Britons over the Saxons in AD 420

reference, yet are still frequently referred to. The decision was made to include these battles in the inventory and draw attention to their spurious origins.

Unlocatable names include the following:

- Cetill (844)
- Enegyd in Anglesey (874)
- Hirbarth, North Wales (980)
- Coed Yspeys (1094)
- Kellitravant, between Gwent and Brecon (1096)

The inventory shows the earliest source for each battle and discusses confusions over location and name when applicable, however brief or uninspiring they might be! Battles can be an emotive topic and generate a lot of local interest, but we must be wary of some long-held identifications and traditions, especially when we can show that their source is insecure, and possibly a suggestion made by a single author based upon similar sounding names and wishful thinking. The lack of archaeological certainty means that we have to rely upon the documentary sources in Welsh, Latin, French or English for our information. Much work remains to be done so please do contribute to the comments section of the Inventory!

Scott Lloyd

Enwau Lleoedd

Fe adewais i Gymru i ddechre crwsâd
I ledaenu'r heniaith tu hwnt i'r hen wlad.
Fe setlais yn Somerset, sy'n sir ddigon braf,
A newidiais ei henw i 'Machlud Haf'.

I dref Bridgewater, sy'n awr yn 'Pont-ddŵr',
Yr es i i fyw, gan feddwl yn siŵr
Y gallwn newid holl enwau'r lle
I iaith ddealladwy a chall, onide?

Aeth 'Coleridge Cottage' yn 'Esgair Glo',
'Bason Bridge' yn 'Pont Ddysgl', 'Fell Turn' yn 'Cwyp Tro'.
Fe drodd 'Wills Neck' yn 'Gwegil Wili'
'Mount Street' yn 'Mwntstryd', 'Cossington' yn 'Trecosi'.


I 'Melin Bônbon' y trodd 'Stembridge Mill'
'Hel Sarnu' yn awr yw enw 'Huntspill';
'Trepawen' yw 'Pawlett', 'Lower Lakes' yw 'Y Llyn'
A 'Heol yr Ystum' yw 'Bath Road' erbyn hyn.

Yr oeddwn i'n disgwyl cael ffws a ffair
Wrth newid yr enwau, ond na – dim un gair;
Er 'mod i'n fewnfudwr, fe ges i rwydd hynt
I waredu o'r ardal yr enwau fu gynt.

Terwyn Tomos

Place-Names of Glamorgan

Place-Names of Glamorgan is the product of more than five years' research. First drafted in 2004, the author had to set it aside until other work was completed in 2013. Thanks to financial grants from WPNS/CELIC and the Marc Fitch Fund, the volume has now (September 2018) been published by Welsh Academic Press (www.welsh-academic-press.wales). The original intention was to publish *Place-Names of Glamorgan* in 2017



but there were unavoidable delays. Throughout the long period of preparation, the author has received generous assistance and support from individual members of WPNS/CELIC and others who appreciate the importance of place-names in the understanding of our history and our languages past and present. The volume analyses more than 1,100 place-names in the historic county of Glamorgan together with those parts of Breconshire and Monmouthshire which now form part of Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful and Caerphilly/Caerffili County Boroughs.

Place-Names of Glamorgan has been written for local and academic historians, linguists, natural historians and archaeologists, in the belief that it helps fill voids in place-name studies in the former county. Preparation has required the collection of evidence on historic spellings from hundreds of primary sources and the consultation of many secondary publications. Individual entries typically consist of place-name, geographical reference, a suggested interpretation and identification of place-name elements, and a sample of historic forms with dates. The sources of historic forms are not given in the printed publication in order to reduce publication

costs but source references will be accessible on line on the website of WPNS/CELIC. The volume includes an introductory discussion of the importance of place-names with a concise analysis of those in Glamorgan, an explanation of editorial method, a guide to the International Phonetic Alphabet, a bibliography, a list of common place-name elements, and illustrations of some of the places mentioned in it.

Place-Names of Glamorgan (ISBN 978 1 86057 132 9) retails at £19.99 and can be ordered directly from <https://welsh-academic-press.shopfactory.com>.

Tro

Mae Mynyddoedd Pawb wedi bod yn ymgyrchu i gynyddu'r ymwybyddiaeth o'r dreftadaeth Gymraeg yn y maes awyr agored yng Nghymru ers sawl blwyddyn bellach. Aethom â deiseb i'r Cynulliad yn 2015 oedd yn ceisio darbwyllo Llywodraeth Cymru fod gwerth addysgol ac economaidd yn ogystal â gwerth diwylliannol i'n henwau lleoedd cynhenid. Daeth syniad o greu ap o enwau'n tirwedd i fodolaeth yn dilyn trafodaethau ar ddiwedd cynhadleddau a gynhaliwyd yn enw Mynyddoedd Pawb yng Ngwersyll yr Urdd Glan-Ilyn.

Diwedd mis Awst y llynedd daeth Mynyddoedd Pawb, Cwmni Galactig a AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy at ein gilydd i drafod y posibilrwydd o gydweithio a dechrau llunio'r cais am grant Cymraeg 2050. Ymhen ychydig

fisoedd cyhoeddwyd ein bod wedi sicrhau'r grant sy'n cael ei roi i brosiectau sydd â photensial o gyfrannu tuag at nod y llywodraeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

'Tro' fydd y map realiti estynedig (AR) cyntaf o'i fath yn y Gymraeg. Cwmni Galactig o Gaernarfon sy'n gyfrifol am yr ochr dechnegol o greu'r ap ei hun. Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wrthi'n paratoi'r cynnwys sef yr wybodaeth angenrheidiol fydd arni gan gydweithio hefyd gyda Mynyddoedd Pawb a Menter Iaith Sir Ddinbych a Menter Iaith Fflint a Wrecsam.

Bydd yr ap yn rhoi dewis i bobl leol ac ymwelwyr ddilyn pedwar llwybr cerdded o fewn lleoliad sy'n rhan o ardal Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Wrth edrych ar yr olygfa trwy sgrin y ffôn symudol o'r llwybr dewisol (neu o lefydd cyfagos yn yr ardal), bydd enwau lleoedd perthnasol yn ymddangos ar y sgrin.



Bydd modd rhoi eich bys wrth ymyl yr enw er mwyn clywed yr enw'n cael ei ynganu'n gywir; rydym wedi recordio amryw o leisiau lleol ar gyfer hyn. Bydd cyfle hefyd i ddysgu mwy am amryw o'r enwau a'r lleoliadau, ystyron rhai o'r enwau, hanesion a chwedlau perthnasol, wrth roi eich bys ar symbol bychan arall fydd wrth ymyl yr enw.

Bydd modd mynd i safle we yr ap Tro er mwyn ei lawrlwytho, a dod o hyd i fwy o wybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg lleol trwy fynd oddi yno wedyn i wefannau'r Mentrau Iaith a mannau eraill.

Bydd yr ap yn cael ei anelu at y diwydiant awyr agored, bobl leol, ysgolion ac ymwelwyr o bob oed. Ardal Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fydd yr ardal beilot i'r prosiect, a gobeithio bydd gan ardaloedd eraill ddiddordeb fel y gellir ehangu i gynnwys lleoedd eraill ar hyd a lled Cymru.

Gobeithiwn y bydd yr ap Tro yn llwyddo i gyflwyno'r iaith Gymraeg a'i chyfoeth i bawb: yr enwau lleoedd fydd yr allwedd i hynny. Gobeithiwn hefyd y bydd yr ap yn ysgogi diddordeb yn yr iaith Gymraeg, yn cynyddu ymdeimlad o berthyn o fewn cymunedau lleol, ac yn ennyn diddordeb ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o gyfoeth ein treftadaeth leol, a thrwy hynny ddod â buddion addysgol ac economaidd i'r ardaloedd dan sylw.

Gobeithiwn lansio'r ap yn ystod tymor yr hydref.

[This article describes a collaborative venture between the the Welsh heritage campaigners Mynyddoedd Pawb (which translates as 'everyone's mountains'), Cwmni Galactig, Clwydian Range Area of Outstanding Natural Beauty (AONB) and Dee Valley Water to create Wales' first Welsh-language augmented reality (AR) map, 'Tro'. The project was funded by a Welsh Government's Cymraeg 2050 Grant.]

Mari Gwent

A historical perspective on the reintroduction of eagles to Wales

Wales forms part of the historical range of two species of Eagles: The **Golden Eagle** *Aquila chrysaetos* (eryr euraid) and the **White-tailed Eagle** *Haliaeetus albicilla* (eryr y môr). Both species are still absent from Wales and both have been extinct as breeding species since the mid-1800s (Lovegrove et al. 1994; Yalden, 2007; Evans et al. 2012). The Golden and White-tailed Eagles are both iconic and charismatic species, top predators in their ecosystems, and are obvious candidates for reintroduction programmes for both Wales and England.

In reintroduction biology, it is usually the case that the longer the species has been absent from the landscape the less information there is to extract for historic records. This was the case for both Golden and White-tailed Eagle records in Wales, with only 25 records being acknowledged in the recent literature, perhaps due to both species having been extinct as a breeding species in Wales for over 150 years.

Collecting records from a number of different historic data types (i.e. written observational, archaeological and place-name records), and not relying on just one data source, has led to a six-fold increase in the number of eagle records known for Wales. We now have an impressive 162 historic records for Wales. With pre-historic records dating back to the Neolithic period, around 4768 years ago!

Place name records comprised of 42.5% of all eagle records in Wales, which added great value to our historic dataset. Place-names found in Wales, suggesting the past presence of 'eagles', comprised of components representing *eryr*, *eryrod* and *heryr*. However, unlike other records in our dataset, place-name records were not ID'd to species level. Place-names were then categorized according to modern knowledge of the species ecology (e.g. habitat preferences) to map the full potential of each species in Wales.

Wales now holds a historic dataset for both eagles, with 85 Golden Eagle records (36 written observational; 41 place-name; and 8 archaeological records) and 77 White-tailed Eagle records (45 written observational; 28 place-name; and 4 archaeological records).

If you think you can add value to our historic dataset and you know of any place-name, archaeological or literature records, then email us via our website: <https://www.Eaglereintroductionwales.com>.



Florence the White-tailed Eagle at one of our public engagement events. Florence is a team member of Wings of Wales and is a proud ambassador for her species

Sophie-lee Williams, Robert J. Thomas and Sarah E. Perkins

References

- Evans, R.J., O'Toole, L., & Whitfield, D.P. 2012. 'The history of eagles in Britain and Ireland: an ecological review from the last 1500 years'. *Bird Study* 59:335–49.
- Lovegrove, R., Williams, G., and Williams, I. 1994. *Birds in Wales*. T & A.D. Poyser: London.
- Yalden, D.W. 2007. The older history of the White-tailed Eagle in Britain. *Brit. Birds* 100: 471–80.

Y tudalen ôl: Panel sydd wedi'i osod wrth y fynedfa i ganolfan ymwelwyr Myddfai ac sy'n dangos elfennau 'meddygol' mewn enwau lleoedd yng ngogledd Sir Gaerfyrddin.

Back page: A panel in the entrance to the Myddfai visitor centre, showing the 'medical' element in place-names in north Carmarthenshire.



What's in a name?

Beth sydd mewn enw?

A scatter of Carmarthenshire place-names

Rhai enwau lleoedd yn Sir Gaerfyrddin

Myddfai is a difficult place-name to explain precisely: 'bowl shaped land' has been proposed with **mydd** meaning 'tub' or 'dish' and **mai**, mutated to **fai**, meaning 'level ground'. This would reflect the geographical setting of the village. A personal name **Mai** has also been suggested for the second element.

'Meddyg' place-names

Meddyg meaning 'mediciner' or 'physician' can be found in a number of north Carmarthenshire place-names. They may reflect the activities of the Physicians of Myddfai:


The following place-names are found around Myddfai village:
Llwynfanmeddyg meaning 'grove of fan the physician',
Llidalid y Meddygon meaning 'physicians' gate' and
Pant Meddygon meaning 'holow of the physicians'.

The importance of honey

Honey was the most effective and easily available antiseptic for the medieval physicians. This may give some medical significance to place-names with the elements **bydat** meaning 'nest of wild bees', **dill** meaning 'honeyscomb', **gwenyn** meaning 'bees' and **mâl** meaning 'honey'. They can be found in local place-names such as:

Esgairfyda 'ridge of the bees nest', **Dildre** 'honeyscomb farm', **Perthygwenyn** 'hedge of the bees' and **Clynmâl** 'honey moor'.

Tyligoed 'holed trees' and **Tyllidder** 'holed oak' are other names that may be significant. Wild bees were hunted in woodlands. The aim was to locate their nests in natural apertures in the trunks or main branches of trees. Hollow trees containing bees' nests were valued items in Welsh Law, which also covered the theft of honey and specified the fines for stealing honey from wild bees' nests in a tree.



- | | | |
|---|--|---|
| <p>Physician place-names
 'Meddyg' mewn enwau lleoedd</p> <ol style="list-style-type: none"> 1 Brynmeddyg 2 Meas y Meddygon 3 Glenmeddyg 4 Nant Meddyg 5 Cae Cyn Meddyg 6 Llwynfanmeddyg 7 Llidalid y Meddygon 8 Pant Meddygon | <p>Holed tree place-names
 Tyll- mewn enwau lleoedd</p> <ol style="list-style-type: none"> 1 Tyligoed Uchaf 2 Tyligoed Isaf 3 Ffynnon Dyligoed 4 Tyligoed Canal 5 Tyligoed Fach 6 Cae'r Dderwen (Tyllidder) | <p>Honey place-names
 Mâl mewn enwau lleoedd</p> <ol style="list-style-type: none"> 1 Penrhawddia 2 Wraun Perthygwenyn 3 Penfyda 4 Esgairfyda 5 Nant Fyde 6 Dildre 7 Cefnmeigoed 8 Clynmâl |
|---|--|---|

Mae Myddfai yn enw sy'n anodd i'w ddehongli'n fanwi: 'tir ar ffurf padell' yw un ystyr sydd wedi ei awgrymu gyda'r elfennau **mydd** 'llestr, dysgl' a **mai** 'gwastadedd'. Mae'r dehongliad hwn yn gweddu i leoliad y pentref. Mae'r enw personol **Mai** wedi ei gynnig, yn ogystal, ar gyfer yr ail elfen.

'Meddyg' mewn enwau lleoedd

T'bad ai cip ar y **meddyg** wrth ei waitn yn Y gymuned, a geir wrth groffu ar ddostronhad yr elfen 'meddyg' mewn enwau lleoedd yng ngogledd Sir Gaerfyrddin?

Enwau sy'n digwydd ym Myddfai ei hun yw **Llwynfanmeddyg**, **Llidalid y Meddygon**, **Pant Meddygon**.

Pwysigrwydd mâl

Byddai antiseptig o bwysigrwydd sylfaenol i'r meddyg wrth drin cwyfau. Antiseptig hwyfus ac effeithlon fyddai mâl. Gallai hyn roi rwyfaint o arwyddocâd meddygol i enwau lleoedd sy'n cynnwys elfennau megis 'bydat' (nythod o wrenyn gwylf), 'dill' 'gwenyn', a 'mâl': **Esgairfyda**, **Dildre**, **Perthygwenyn**, **Clynmâl**.

Gallai enwau megis **Tyligoed** (bwlch yn rhisgl y coed) a **Tyllidder** (bwlch yn rhisgl y dderwen) fod yn arwyddocaol yn ogystal. Gwyddom am yr arfer o hela gwenyn gwylf mewn coetiroedd sef cantod nythod gwenyn mewn tylau naturiol ym mon-gff neu brif gangen y goedden. Roedd Cyfraith Hywel yn ystyried caubren a oedd yn cynig lloches i nythod gwenyn gwylf yn werthfawr. Byddai dirwy am ddiwyn mâl gwenyn gwylf o goedden.

